**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Children and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref : LF/GT/334/13

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Ebrill 2013

Annwyl Christine,

Yn fy ymateb i Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Fabwysiadu, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2013, cytunais y byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am unrhyw gynnydd ar ddatblygiad Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Ar 9 Ebrill, am y tro olaf cyfarfu'r Grŵp Cynghori Arbenigol ar Fabwysiadu, sy'n cynghori ar ddatblygu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, i drafod y model gweithredol a ddatblygwyd gan ADSS Cymru a CLlLC. Roedd y cyfarfod hwn yn un cadarnhaol iawn a chymeradwywyd y model gweithredol gan y Grŵp. Bydd llywodraeth leol, mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid allweddol, nawr yn cymryd y camau angenrheidiol i gyflawni fy ngweledigaeth am Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Rwy'n amgáu'r model at eich sylw, ac os teimlwch y byddai o fudd inni gyfarfod i drafod y cynnydd a'r cynlluniau, byddwn yn hapus i drefnu dyddiad sy'n gyfleus i bawb.

Gwenda.

**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Children and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*